# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Care in Hands**

**Laurel House**
**Wooden**
**Saundersfoot**
**SA69 9DY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

03/02/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Care in Hands

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | Care in Hands Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Caiff staff angerddol ac wedi'u hyfforddi'n dda eu harwain gan gynlluniau manwl gywir a chyfredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dywedodd un, *“Dwi wrth fy modd gyda fy ngwaith a'r bobl rydym yn eu cynorthwyo.”* Mae rheolwyr y gwasanaeth yn hawdd mynd atynt ac yn cael eu parchu'n fawr gan bawb dan sylw. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *“Mae'n lle gwych i weithio, dyna pam rwyf wedi bod yma mor hir.”*

Mae meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol wedi cael sylw. Gwelsom waith rheoli meddyginiaeth priodol a gallwn gadarnhau bod y gwasanaeth yn adrodd materion yn briodol i AGC.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cymryd rhan ym mhob penderfyniad am y gwasanaeth maent yn ei gael. Caiff gwybodaeth fanwl ei chofnodi yn eu cynlluniau personol. Mae'r holl staff gofal yn gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i helpu pobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n cael effaith arnynt. Mae uwch-staff yn cynnal cynlluniau personol manwl sy'n canolbwyntio ar bethau sydd o bwys.

Mae’r staff yn hyblyg yn y ffordd maent yn cefnogi unigolion i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg, sy'n golygu bod pobl yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis.

Mae trefniadau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a chymorth iawn, gan weithwyr gofal dawnus a gwybodus. Mae'r staff yn amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau i leisio pryderon. Mae hyfforddiant a datblygu parhaus, yn unol ag anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn sicrhau bod eu hamgylchiadau unigol yn cael eu hystyried. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen ac mae ganddynt hyder llawn yn y rheolwyr.

Mae gan y bobl lais ac maent yn gallu cyfrannu at sut mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan fod yr unigolyn cyfrifol yn eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd. Mae prosesau llywodraethu yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth trwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae'r adolygiad ansawdd gofal yn nodi meysydd i'w gwella yn dilyn ymgynghoriad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r tîm o staff.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn hapus iawn gyda'r gofal a chymorth maent yn eu cael. Dywedodd unigolyn wrthym, *"Mae'r gofalwyr yn rhagorol, dwi'n eu caru nhw i gyd."* Mae'r staff gofal yn gweithio yn y gymuned, gan gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain. Dywedodd aelod teuluol wrthym, *"Nid oes gen i unrhyw gwynion o gwbl ac maent yn gwneud gwaith gwych."* Mae gan y darparwr gynlluniau personol, manwl gywir a chyfredol ar gyfer sut mae'n darparu cymorth i unigolion. Mae'r rheolwr yn ystyried ystod o wybodaeth gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr, gweithwyr a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae asesiadau risg mewn meysydd megis rheoli meddyginiaeth yn helpu i gynnal diogelwch pobl wrth hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae uwch-weithwyr yn adolygu cynlluniau yn rheolaidd gydag unigolion a'u cynrychiolwyr fel eu bod yn parhau'n gyfredol. Mae nodiadau dyddiol yn rhoi tystiolaeth o'r tasgau a gyflawnwyd yn bennaf ac mae'r rheolwr yn bwriadu gwella manylion y canlyniadau yn y cofnodion hyn. Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu'n dda o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cyfrannu at gynlluniau personol. Mae'r staff gofal yn angerddol ac yn gadarnhaol am eu rôl a'r effaith maent yn ei chael ar fywydau pobl. Dywedodd gweithiwr wrthym, *"Rwyf wrth fy modd gyda'r bobl sy'n gweithio gyda mi ac o allu gwneud gwahaniaeth."*

Mae bron yr holl staff yn cadarnhau bod ganddynt ddigon o amser teithio rhwng galwadau gofal a chaiff amser ychwanegol ei ddyrannu ar gyfer ardaloedd lle mae traffig a pharcio yn broblem. Mae'r bobl a'r gweithwyr gofal yn cadarnhau bod ganddynt ddigon o amser i gwblhau'r gofal a gallant wneud cais i addasu hyd y galwad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion yr unigolyn.

Mae COVID-19 wedi cael effaith ar y gwasanaeth yn yr un modd â llawer yn y sector dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae pawb wedi gweithio'n hyblyg fel tîm i gynnal y gwasanaeth yn ystod y pandemig. Dywedodd y rheolwr wrthym fod staff yn cyflenwi shifftiau ei gilydd pan fydd yn rhaid iddynt ynysu ac mae pobl wedi bod yn garedig iawn. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn cydnabod yr heriau mae pawb wedi eu hwynebu. Dywedodd aelod teuluol wrthym, *"Mae wedi bod yn ddwy flynedd galed ond maent yn cyflawni bob tro."*

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau i reoli'r risg o haint. Mae yna arferion hylendid da yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Nid oes problemau ynglŷn â chyfarpar diogelu personol; dywedir wrthym am gymryd beth sydd ei angen arnom."*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn cymryd rhan yn y gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac mae staff yn ei ddisgrifio fel hawdd mynd ato a chefnogol. Mae gan y darparwr drefniadau da ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae adroddiadau chwarterol yr unigolyn cyfrifol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys y bobl a/neu eu cynrychiolwyr. Mae'r bobl a'r gweithwyr yn cadarnhau eu bod yn siarad â'r unigolyn cyfrifol a'u bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella'r gwasanaeth. Mae'r adolygiad ansawdd gofal bob chwe mis yn defnyddio gwybodaeth o systemau sicrhau ansawdd mewnol.

Mae yna ddiwylliant agored ac anogol yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr a'r uwch-staff yn uchel eu parch ac yn gymwynasgar. Dywedodd gweithiwr wrthym, *"Rwy'n cael cymorth da gan fy rheolwr llinell; mae hi'n gwrando bob tro ac mor garedig."* Mae gan bobl hyder yn y ffordd mae'r gwasanaeth yn rheoli cwynion ac maent yn teimlo eu bod yn gallu lleisio pryderon os oes angen. Mae'r bobl yn gallu siarad â uwch-staff y swyddfa i wneud newidiadau i amseroedd galw sy'n eu caniatáu i fynychu apwyntiadau iechyd neu gymdeithasol. Caiff problemau â meddyginiaeth eu rheoli'n briodol, ceisir cyngor gan weithwyr proffesiynol, a gwneir atgyfeiriadau i AGC pan fo angen.

Mae'r holl weithwyr cymorth yn cadarnhau eu bod yn cael cyfarfodydd goruchwylio ac arfarniadau un-i-un rheolaidd ac y gallant siarad â'r rheolwr pryd bynnag y bo angen, ac roedd y cofnodion yn cadarnhau hyn. Mae yna weithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da ac mae gan staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau allweddol. Mae trafodaethau â staff yn arddangos dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau ynghylch diogelu.

Mae gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, yr hawl i weithio, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gweithwyr cymorth yn cael hyfforddiant datblygiadol a phenodol i'r unigolyn gorfodol i ddiwallu anghenion pobl ac i alluogi canlyniadau. Mae'r uwch-staff yn cwblhau gwiriadau cymhwysedd gyda gweithwyr gofal i sicrhau bod eu harferion gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r gweithwyr yn gadarnhaol am eu datblygiad parhaus a dywedodd un wrthym, *"Rwyf wedi gwneud yr hyfforddiant i gyd a bellach rwyf wedi cofrestru ar fy NVQ ac rwyf wrth fy modd."*

Mae niferoedd digonol o staff yn diwallu anghenion pobl drwy gydol y dydd. Mae gweithwyr rheolaidd yn sicrhau bod pobl yn cael parhad gofal a chymorth i helpu i ddatblygu cydberthnasau.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 60 | Rheoliad 60 – nid yw hysbysiadau’n cael eu rhoi i AGC | Cyflawnwyd |
| 58 | Rheoliad 58 (1) a (2)(b) a (3) | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 14/03/2022